

**CYNGOR BRO MORGANNWG
(GWAHARDD A CHYFYNGU AR AROS A
LLWYTHO A MANNAU PARCIO)
(GORFODI SIFIL) (DIWYGIAD) (RHIF 2) 2020**

1. Ar 30 Mehefin 2020 gwnaeth Cyngor Bro Morgannwg, wrth arfer ei bwerau dan Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 a Deddf Rheoli Traffig 2004 a'r holl bwerau galluogi eraill, greu Gorchymyn i osod y cyfyngiad parcio a nodir yn yr atodlen isod.
2. Bydd y Gorchymyn yn dod i rym ar 6 Gorffennaf 2020 neu ar y dyddiadau y mae'r arwyddion a'r marciau ffordd yn eu lle, p'un bynnag sydd hwyrac ac fe'i gelwir - "Gorchymyn Cyngor Bro Morgannwg (Gwahardd a Chyfyngu ar Aros a Llwytho a Mannau Parcio) (Gorfodi Sifil) (Diwygiad) (Rhif 2) 2020"
3. Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a chynlluniau yn dangos yr ardaloedd yr effeithir arnynt ar wefan y Cyngor yn www.valeofglamorgan.gov.uk
4. Os dymunwch gwestiynu dilysrwydd y Gorchymyn neu unrhyw ddarpariaethau ynddo ar y sail nad yw'n unol â'r pwerau a ddyfarnwyd gan y Ddeddf uchod neu ar y sail na chydymffurfiwyd ag unrhyw un o ofynion y Ddeddf, neu unrhyw offeryn a wnaed dan y Ddeddf mewn perthynas â'r Gorchymyn, gallwch, o fewn chwe wythnos wedi 6 Gorffennaf 2020 wneud cais i'r Uchel Lys at y diben hwn.

Diwygir y Gorchymyn Rheoleiddio Traffig canlynol fel a ganlyn:

Gorchymyn Cyngor Bro Morgannwg (Gwahardd a Chyfyngu ar Aros a Llwytho a Mannau Parcio) (Gorfodi Sifil) 2013

ATODLEN

(Insert into map schedule AN59 AO59).

Cynnig Gwahardd Aros ar Unrhyw Adeg.

Cross Common Road, Dinas Powys

Ar yr ochr dde-ddwyreiniol o'r gyffordd ag ochr dde-orllewinol Clos Derwen i gyfeiriad y de-orllewin am bellter o oddeutu 36 metr.

Ar yr ochr dde-ddwyreiniol o'r gyffordd ag ochr ogledd-ddwyreiniol Clos Derwen i gyfeiriad y gogledd-ddwyrain yn gyffredinol am bellter o oddeutu 55 metr.

Ar yr ochr ogledd-orllewinol o'i gyffordd â Cardiff Road mewn cyfeiriad y gogledd-ddwyrain yn gyffredinol ac yna i'r gogledd-orllewin am bellter o oddeutu 80 metr.

Ar yr ochr dde-orllewinol o'i chyffordd ag ochr ogledd-orllewinol Llwyn Derwen i gyfeiriad y gogledd-orllewin am bellter o tua 40 metr.

Ar yr ochr ogledd-ddwyreiniol o bwynt 3 metr i'r gogledd-orllewin o ffin de-ddwyreiniol eiddo rhif 4 i gyfeiriad y gogledd-orllewin yn gyffredinol am bellter o oddeutu 37 metr.

Clos Derwen Dinas Powys

Ar y ddwy ochr o'r gyffordd ag ochr dde-ddwyreiniol Cross Common Road i gyfeiriad y de-ddwyrain am bellter o 10 metr.

Cardiff Road Dinas Powys.

Ar yr ochr ogledd-ddwyreiniol o'i chyffordd ag ochr ogledd-orllewinol Cross Common Road i gyfeiriad y gogledd-orllewin am bellter o oddeutu 17 metr.

Llwyn Derwen Dinas Powys.

Ar y ddwy ochr o'r gyffordd ag ochr dde-orllewinol Cross Common Road i gyfeiriad y de-orllewin am bellter o 10 metr.

Dyddiad: 2 Gorffennaf 2020.

Cyfarwyddwr yr Amgylchedd a Thai

Cyngor Bro Morgannwg,

Depo'r Alps, Gwenfô, CF5 6AA